Pobl Hŷn yn y Gweithle

Astudiaeth Achos

Cefndir Cymdeithas Adeiladu'r Principality

Sefydlwyd Cymdeithas Adeiladu'r Principality gyntaf ym 1860 i ddarparu cyllid ar gyfer adeiladu cartrefi newydd yng Nghaerdydd. Ers hynny, rydym wedi parhau â'n hanes balch o helpu pobl i ffynnu yn eu cartrefi.

Ers dros 160 o flynyddoedd, mae'r Principality wedi cynnal ei hetifeddiaeth falch, gan gydnabod bod "cartref o bwys" ac yn gweithredu fel calon bywyd, lle mae cynlluniau, penderfyniadau ac atgofion yn cael eu gwneud. Diben diysgog y Principality yw cynorthwyo ei Haelodau i fyw bywydau boddhaus, ni waeth ble neu beth bynnag y maent yn ei alw'n gartref, ar bob cam o'u bywydau.

Pam mae'r Principality yn ymwneud â'r rhaglen Pobl Hŷn yn y Gweithle

Mae'r Principality yn cydnabod cyfraniadau amhrisiadwy gweithwyr hŷn ac arwyddocâd sicrhau eu hymgysylltiad a'u cynhwysiant parhaus yn y gweithle. Drwy gymryd rhan yn y rhaglen Pobl Hŷn yn y Gweithle, nod y Principality yw mynd i'r afael â heriau penodol a meithrin amgylchedd lle mae gweithwyr o bob oed yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn eu teithiau gyrfa.

Heriau yr Aed i'r Afael â hwy a Nodau i'w Cyflawni

- Heriau: Goresgyn rhagfarnau posibl sy'n gysylltiedig ag oedran, meithrin cydweithredu rhwng cenedlaethau, a darparu cyfleoedd i weithwyr hŷn ymgysylltu a chyfrannu'n effeithiol.
- Nodau: Hyrwyddo amrywiaeth a chynwysoldeb, gwella morâl a chadw gweithwyr, a manteisio ar y cyfoeth o brofiad a gwybodaeth sydd gan weithwyr hŷn.

Camau a Gymerwyd

Mae'r Principality wedi rhoi cyfres o fentrau ar waith i gefnogi ei nodau a mynd i'r afael â heriau:

- Cymryd rhan yn y Rhwydwaith Dysgu Oed-gynhwysol: Ymgysylltu â'r Rhwydwaith Dysgu Oed-gynhwysol i gael mynediad at adnoddau, canllawiau, ac arferion gorau gwerthfawr ar gyfer hyrwyddo cynhwysiant oedran yn y gweithle.
- Trefnu Digwyddiadau Oed-gynhwysol: Cynnal digwyddiadau fel sesiynau rhwydweithio cyflym, lle gall gweithwyr o bob oed gysylltu, rhannu profiadau, a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Trosolwg o Ddigwyddiad

Trefnodd y Clwb Paned ddigwyddiad deinamig o'r enw "Rhwydweithio Cyflym" a gynhaliwyd ym mhrif swyddfa'r sefydliad. Nod y digwyddiad oedd dod â chydweithwyr o wahanol adrannau a grwpiau oedran at ei gilydd i gymryd rhan mewn sgyrsiau ystyrlon a meithrin cysylltiadau. Roedd pob rownd o rwydweithio cyflym yn para tua chwe munud, ac yn ystod y cyfnod hwn, ysgogwyd y cyfranogwyr â chwestiynau yn ymwneud â'u teithiau gyrfa.

Pobl Hŷn yn y Gweithle

Astudiaeth Achos

Amcanion:

1. Hwyluso rhyngweithio rhwng cydweithwyr o wahanol grwpiau oedran.

2. Darparu llwyfan ar gyfer rhannu sgiliau, profiadau, a mewnwelediad gyrfa.

3. Meithrin ymdeimlad o berthyn a chynhwysiant ymhlith yr holl weithwyr.

4. Annog rhwydweithio a meithrin perthnasoedd ar draws y sefydliad.

Effaith a Chanlyniadau

- Newid mewn Agweddau: Arsylwi newid cadarnhaol mewn agweddau tuag at weithwyr hŷn, gyda mwy o gydnabyddiaeth o'u gwerth a'u cyfraniadau o fewn y sefydliad.
- Cydweithio Gwell: Gweld gwell cydweithio a rhannu gwybodaeth ymhlith gweithwyr o wahanol grwpiau oedran, gan arwain at ddiwylliant mwy deinamig a chynhwysol yn y gweithle.

Mae ymrwymiad Cymdeithas Adeiladu'r Principality i gynhwysiant oedran yn brawf o'i hymroddiad i greu gweithle lle mae gweithwyr o bob oed yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu, a'u grymuso i ffynnu. Trwy gymryd rhan yn y rhaglen Pobl Hŷn yn y Gweithle a gweithredu mentrau amrywiol, mae'r Principality yn parhau i arwain trwy esiampl wrth hyrwyddo amrywiaeth oedran a meithrin diwylliant sefydliadol cynhwysol.